Office for the Internal Market
Part of the Competition and Markets Authority

## Marchnad fewnol y DU: diweddariad strategaeth ddata a blaenoriaethau ymchwil

### Cyflwyniad

1. Mae gan Swyddfa'r Farchnad Fewnol (OIM) ddyletswydd statudol dan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU (2020) i fonitro ac adrodd ar weithrediad y farchnad fewnol yn y DU. Mae data o ansawdd dda ar fasnach o fewn y DU yn helpu i greu darlun o ba mor effeithiol mae marchnad fewnol y DU yn gweithredu dros amser ac yn 2023, cyhoeddodd yr OIM ei Map Ffordd Strategaeth Ddata sy'n amlinellu'r sail dystiolaeth ar gyfer monitro effeithiolrwydd gweithrediad marchnad fewnol y DU.

2. Y llynedd, fe wnaethom ddarparu diweddariad mewn perthynas â'r Map Ffordd Strategaeth Ddata (gweler diweddariad map ffordd strategaeth ddata yr OIM 2024) er mwyn adrodd ar weithgareddau OIM yn ystod 2023-2024 a chrynhoi'r datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r sail dystiolaeth.

3. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi diweddariad mwyaf diweddar yr OIM mewn perthynas â'r Map Ffordd Strategaeth Ddata, sy'n cynnwys ein blaenoriaethau ymchwil ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

### Gweithgareddau OIM

4. Yn Adroddiad Blynyddol 2024-25 yr OIM fe wnaethom barhau i adeiladu ar y sail dystiolaeth ar weithrediad marchnad fewnol y DU. Eleni, bu i'n hasesiad o sut mae marchnad fewnol y DU yn gweithredu elwa o set data newydd ar fasnach ryngranbarthol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ochr yn ochr â data masnach wedi'i ddiweddaru a gyhoeddwyd gan y Llywodraethau datganoledig, yn ogystal ag Arolwg Mewnwelediad a Chyflyrau Busnes (BICS) y Swyddfa Ystadegau Gwladol a data tollau CThEF ar symudiad nwyddau o Brydain i Ogledd Iwerddon.

5. Parhaodd yr OIM i ymgysylltu'n rheolaidd gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn monitro datblygiadau mewn perthynas â data masnach o fewn y DU gan dynnu sylw at bwysigrwydd y data hwn er mwyn deall sut mae marchnad fewnol y DU yn gweithredu. Ym mis Medi 2024, bu i'r OIM gynnal digwyddiad data a wnaeth ddenu siaradwyr o'r DU, yn ogystal â chydweithwyr o Ganada ac o'r UDA. Cyhoeddodd yr OIM ddealltwriaethau o'r digwyddiad data ym mis Ionawr 2025.

6. Ymatebodd yr OIM ac Uned Microeconomeg y CMA i alwad Awdurdod Ystadegau'r DU (UKSA) am gyfraniadau cyn cynulliad cyntaf Cynulliad Ystadegau y DU a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2025. Cafodd Adroddiad annibynnol ar Gynulliad Ystadegau'r DU 2025 – Awdurdod Ystadegau'r DU yr UKSA ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2025.

**Datblygiadau mewn perthynas â'r sylfaen dystiolaeth**

7. Ym mis Chwefror 2025 cyhoeddodd yr ONS ei ffigyrau ar fasnach ryngranbarthol ar gyfer 2019 a 2020. Mae'r data yma yn archwilio llif masnach o fewn y DU ar Lefel Diriogaethol Ryngwladol (ITL) 1 (Gogledd Iwerddon, yr Alban, Cymru a'r naw rhanbarth yn Lloegr). Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol drosolwg o lif taliadau o'r naill ddiwydiant i'r llall o 2017 i 2024.[1] Roedd hyn yn seiliedig ar System daliadau BACS Debyd Uniongyrchol, Credyd Uniongyrchol BACS, a Thaliadau System Daliadau Cyflymach (FPS) cyfanredol wedi'u gwneud yn ddienw.

8. Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a NISRA yn cynhyrchu ystadegau masnach ar gyfer eu cenhedloedd cyfatebol. Defnyddir y data hwn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghyd â ffynonellau data eraill er mwyn creu amcangyfrifon masnach ryngranbarthol y DU. Y prif ddatblygiadau mewn perthynas â'r ystadegau hyn yw: data dros dro Arolwg Masnach Cymru (TSW) 2022 (Gorffennaf 2024, Llywodraeth Cymru); Tablau Cyflenwad a Defnydd (SUTau) a Thablau Mewnwn-Allbwn (IOTs) 2019 (Mawrth 2025, Llywodraeth Cymru); canlyniadau Ystadegau Masnach Economaidd Gogledd Iwerddon (NIETS) (NISRA, Rhagfyr 2024).

9. Mae'r Arolwg Mewnwelediad a Chyflyrau Busnes (BICS), arolwg gwirfoddol bob pythefnos, yn parhau i gasglu data amserol er mwyn helpu i ddeall effaith yr heriau mae'r economi yn eu hwynebu a'r effaith mae digwyddiadau eraill yn eu cael ar fusnesau'r DU.

10. Mae gwaith ar y prosiect TiVA yn parhau, a disgwylir cael amcangyfrifon dros dro TiVA yn ddiweddarach yn 2025. Nod y prosiect hwn (cydweithrediad rhwng yr Adran Fusnes a Masnach, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol) yw datblygu data gwell ar gyfranogiad rhanbarthol ar Gadwyni Gwerth Byd-eang, neu'r prosesau sy'n gysylltiedig yn rhyngwladol wrth ddod â chynnyrch neu wasanaeth i'r farchnad. Bydd set data TiVA y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn cynnwys dadansoddiad ar lefel 1 ITL ar gyfer y DU.

**Blaenoriaethau ymchwil**

Yn niweddariad eleni, rydym hefyd wedi adnabod tair blaenoriaeth ymchwil yr hoffem eu symud ymlaen yn 2025-2026:

## A. Deall y farchnad fewnol drwy ddata gweinyddol

Byddwn yn sgopio'r defnydd a wneir o ddata gweinyddol neu weithrediadol er mwyn helpu ein dealltwriaeth o farchnad fewnol y DU.

[1] Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddata arbrofol ar lif taliadau o'r naill ddiwydiant i'r llall yn y DU o 2016 i 2023, yn dilyn gwaith ar y cyd gyda'r Alan Turing Institute. Roedd y set data untro hwn yn deillio o Ddebyd Uniongyrchol BACS a data taliadau Credyd Uniongyrchol ar daliadau rhwng busnesau.

## B. Dadansoddi newidiadau yng nghyfansoddiad masnach o fewn y DU

Byddwn yn archwilio i ba raddau mae'r amrywiaeth o gynnyrch ac ymgysylltu o fewn y sector o safbwynt masnach o fewn y DU yn newid, drwy ddadansoddi allbynnau arolygon masnach.

## C. Archwilio integreiddiad cadwyni cyflenwi ar draws y DU

Byddwn yn archwilio sut allem fesur i ba raddau mae integreiddiad yn bod o fewn cadwyni cyflenwi ar draws y DU.

Yn ogystal â'r tri phrosiect a nodwyd uchod, rydym wedi adnabod pum opsiwn arall ar gyfer ymchwil a allai helpu i wella ein dealltwriaeth o sut mae perthnasoedd economaidd rhwng y pedair gwlad yn effeithio ar y farchnad fewnol:

## D. Defnyddio data manwerthu

Hoffem archwilio sut ellid defnyddio data manwerthu ar draws sectorau er mwyn deall newidiadau mewn patrymau masnach dros amser.

## E. Symudiad masnach a phobl yng ngororau'r DU

Mae llawer o waith yr OIM hyd yma wedi canolbwyntio ar lifau masnach cyfanredol rhwng pedair gwlad y DU. Rydym i gyd yn awyddus i ddatblygu'r dadansoddiad hwn ymhellach, er enghraifft er mwyn deall p'un a all rhyngweithiadau nodedig ddigwydd yn y gororau.

## F. Ymddygiad prynu'r cwsmer

Byddem yn hoffi deall a ellir defnyddio newidiadau yn ymddygiad prynu'r cwsmer er mwyn cynnig dealltwriaethau ar ddatblygiadau yn y farchnad fewnol

## G. Data caffael cyhoeddus

Mae'n bosib y gall datblygiadau cyfredol wrth adrodd am ddata caffael cyhoeddus ddarparu cyd-destun defnyddiol ar fasnach rhwng gwledydd a rhanbarthau.

## H. Prisio rhanbarthol

Rydym yn awyddus i ddeall i ba raddau mae'r gwahaniaethau mewn rheoliadau ar draws gwledydd y DU yn cyfrannu at wahaniaethau mewn prisiau.

**Y camau nesaf**

Rydym yn annog rhanddeiliaid i gysylltu gydag unrhyw sylwadau ar ein Strategaeth Ddata ac rydym yn croesawu awgrymiadau ar sut i symud y cynigion ymchwil yma yn eu blaen. Gallwch gysylltu â ni drwy OIM@cma.gov.uk